Mai 20fed 2018

Mae'n fore Sul i'r Teulu Cyfan. Wendy a Bethan Reynolds a Huw M Roberts sydd yn arwain, gydag Elen George wrth y piano. Diolch iddyn nhw. Croeso i ymwelwyr i'n plith.

Y Suliau nesaf.....

Mai 27ain – Eirian Rees, a Sian Elin yn cyfeilio

Mehefin 3ydd – Cymundeb, gydag aelodau Llantrisant, Llanharan ac unrhyw Lan arall hoffai gyfrannu.....ac Eleri Huws fydd yn cyfeilio.

Mehefin 10fed Geraint Rees a Gwerfyl Morse gyda Bethan yn cyfeilio

Mehefin 17eg – Sul i'r Teulu, gyda Sian Elin yn cyfeilio

Mehefin 24ain – Emlyn Davies, gydag Ann Griffiths ac Eleri Huws yn cyfeilio

Gorffennaf 1af – Sul Efail Isaf

Gorffennaf 8ed – bydd ymwelwyr o gapeli Cymraeg y rhanbarth yn ymuno gyda ni am yr oedfa. Os oes gennych syniad am oedfa hwyliog, plîs mynnwch air gyda Geraint Rees.

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.

WYTHNOS CYMORTH. CRISTNOGOL

Diolch i bawb fu allan yn casglu yn y gymdogaeth dros Gymorth Cristnogol.

Y bore 'ma bydd plant dosbarth 3 yn gwerthu cacennau amser coffi er mwyn codi arian at Gymorth Cristnogol. Diolch iddyn nhw.

Criw Llantrisant, Llanharan ac unrhyw Lan arall!
Oes rhywun o'r cylch wedi dechrau meddwl am oedfa Mehefin 3ydd? Diolch yn fawr.

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar www.tabernacl.org
Mae llwyth o bethau amrywiol a doeth ar www.cristnogaeth21.cymru
Cyhoeddiadau at: geraintrees@hotmail.com
Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan neu'r capel, ebostiwch carolinerees2@hotmail.com

SESIWN EFAIL ISAF NESAF yn y Carpenters, Mehefin 9ed am 8 o'r gloch



Yr hyn rwyf yn ei ddweud yw mai nid pobl oedd yn adrodd storiau llythrennol oedd pobl yr oesoedd a fu, a ninnau'n ddigon doeth i'w darllen yn symbolaidd, ond eu bod hwythau wedi adrodd storiau symbolaidd a ninnau'n ddigon twp i'w cymryd yn llythrennol.

John Dominic Crossan, Diwinydd.



Mae croeso i bawb yng nghynhadledd Cristnogaeth 21 yn Salem Treganna.
Bore gwerth ei fynychu cyn mynd ymlaen i Tafwyl!